Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Cwm Derwen

**Beech Grove**
**Oakdale**
**Coed Duon**
**NP12 0JL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Cwm Derwen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Cwm Derwen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 203 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 150 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 22 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 12.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 14.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/06/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/11/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Cwm Derwen yn ysgol gynhwysol, sy'n hyrwyddo awyrgylch ac ethos cadarnhaol. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn awyddus i blesio yn ystod gwersi ac mewn gweithgareddau. Mae hyn oherwydd y perthnasoedd gwaith cadarn sydd ganddynt â'u hathrawon ac aelodau staff eraill. Mae'r ganolfan adnoddau arbenigol, a'i disgyblion, yn chwarae rhan bwysig ym mywyd dyddiol yr ysgol.

Mae dysgu'n llwyddiannus lle mae'r addysgu a'r adborth i ddisgyblion yn bwrpasol ac yn eu herio i berfformio ar eu gorau. Mae hyn yn helpu llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau gwrando, siarad, darllen a digidol. Yn ogystal, maent yn datblygu medrau ysgrifennu estynedig addas ac mae eu rhifedd ar draws y cwricwlwm yn foddhaol. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr addysgu a'r asesu yn gyson dda ar draws yr ysgol.

Mae'r staff yn gydwybodol wrth ddarparu cymorth a gofal ar gyfer disgyblion. Mae eu hathroniaeth gytûn yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a'u hymddygiad eu hunain yn dda. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu hagweddau positif at ddysgu a'u parodrwydd i ddyfalbarhau â thasgau. Mae'r ysgol yn cymell disgyblion i ymddiried yn eu cyfoedion a staff yr ysgol, tra'n datblygu parch a chwrteisi am deimladau pobl eraill.

Mae staff yn defnyddio'r adeilad yn gynhyrchiol i dargedu anghenion disgyblion yn fwriadus, ac o'r herwydd, mae'r cynllunio o ran gweithgareddau i hybu dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu yn yr awyr agored mor effeithiol, yn enwedig i'r disgyblion ieuengaf. Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol ac yn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli gyda'r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn drylwyr. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol ac mae hi'n benderfynol i lwyddo er budd y disgyblion a'r gymuned. Mae'r uwch dîm rheoli, y staff a'r llywodraethwyr yn rhannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd i sicrhau bod yr ysgol yn gwbl gynhwysol a'i bod yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu da. Mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol ymhlith staff ac yn darparu cyfleoedd buddiol ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cyfrannu at ethos ysgol gyfan cadarnhaol, lle mae staff a disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Cysoni'r arferion addysgu ar draws yr ysgol

A2 Cynllunio ar y cyd i wella medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig disgyblion

A3 Gwella ansawdd a darpariaeth profiadau dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig ar gyfer y disgyblion ieuengaf

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae medrau llawer o ddisgyblion islaw'r lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm, ac mae llawer yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau siarad, gwrando, darllen a digidol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n effeithiol ac mae disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn manteisio ar bob agwedd o'r cwricwlwm yn llwyddiannus, ac yn gwneud cynnydd pwrpasol o'u mannau cychwyn.

Mae medrau gwrando a siarad llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gyflym. Wrth iddynt symud o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, maent yn magu hyder da ac yn ateb cwestiynau'n synhwyrol tra'n trafod tasgau gyda'u cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn mynegi eu teimladau'n glir yn yr ardal gartref tra'n cymysgu moddion hud. O Flwyddyn 3 ymlaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu geirfa ehangach yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau sylwgar, fel myfyrio ar ddatblygiad addysg Gymraeg yn y cymoedd. Mae llawer o ddisgyblion yn y ganolfan adnoddau dysgu yn datblygu medrau siarad a gwrando buddiol, i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diddorol ac ysgogol, fel addurno'r wal brosiect gyda helyntion Guto Ffowc.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu medrau darllen. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dysgu seiniau llythrennau yn gyflym, ac erbyn Blwyddyn 2, mae cynnydd llawer ohonynt yn gadarn. Maent yn rhoi cynnig ar eiriau anghyfarwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau ffoneg. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ddarllenwyr cymwys, ac maent wedi'u harfogi'n dda i fynd i'r afael ag amrywiaeth o wahanol destunau. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion ysgolion o'r gorffennol a'u cymharu â chyfleusterau ysgolion heddiw yn huawdl.

Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu hysgrifennu o ystyried eu mannau cychwyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau ysgrifennu'n briodol, gan ddefnyddio atalnodi a gramadeg sylfaenol. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n effeithiol mewn arddulliau ysgrifennu gwahanol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn disgrifio eu hunanbortreadau yn briodol. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn golygu eu gwaith yn addas ac yn defnyddio geirfa ac atalnodi mwy

soffistigedig i wella eu drafftiau terfynol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ymestyn eu hysgrifennu yn ddigon effeithiol, i adlewyrchu eu gwir alluoedd, wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio egwyddorion a chysyniadau mathemategol yn effeithiol. Maent yn defnyddio rhifau yn hyderus ac yn casglu a chofnodi gwybodaeth a chanlyniadau mewn tablau a graffiau syml. Er enghraifft, maent yn creu siartiau a graffiau bar ar sut i hysbysu ailgylchu yn y gymuned. Yn ogystal, maent yn arbrofi â chyfaint trwy lenwi a gwagio blychau o wahanol feintiau gyda dŵr a phridd. O Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau mathemategol cadarn. Mae disgyblion hŷn yn datblygu strategaethau effeithiol i dalgrynnu a chymharu degolion. Defnyddiant ddata yn briodol a'i gyflwyno'n effeithiol mewn amrywiol ffurfiau. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio graffiau llinell a gwasgaru yn bwrpasol i gofnodi'r tymheredd yn Antarctica a chyfaint eu hysgyfaint. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau digidol da ac maent yn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion iau yn rhaglennu robotau electronig i deithio o gwmpas cwrs yn effeithlon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn trin a thrafod testun yn effeithiol, fel creu ffeiliau ffeithiau ar arweinwyr byd enwog a thra byddant yn paratoi cyflwyniadau ac animeiddiadau ar hanes yr ysgol. Mae llawer yn creu a defnyddio cronfeydd data a thaenlenni syml yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig a chreadigol yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu celf a chwarae rôl mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio dewislen i archebu bwyd a diod yn y caffi chwarae rôl. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol yn arbrofi a datblygu eu dawn greadigol, wrth adeiladu strwythurau gwahanol gyda blociau.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder a pharch am eu hysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn ethos cynhwysol a theuluol yr ysgol, sy'n rhan annatod o weledigaeth y pennaeth a'r staff. Trwy'r gwerthoedd a'r moesau cytûn, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi bod oedolion yn eu parchu, sy'n cyfrannu'n gadarn at ddatblygu perthynas waith agos sydd wedi'i seilio ar barch ac ymddiriedaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a pharchus wrth symud o gwmpas yr ysgol. Mae llawer yn ymddwyn yn dda yn y dosbarthiadau heb anogaeth oedolion, ac ar y cyfan, maent yn ofalgar o'i gilydd. Yn ogystal, mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein. Mae presenoldeb disgyblion yn dda, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch bod oedolion yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt. Mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn barod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau, a chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion sy’n aelodau o bwyllgorau amrywiol fel y Pwyllgor Eco, Cyngor yr Ysgol, y Siartwyr Iaith a’r Dysgwyr Digidol yn gwneud cyfraniadau effeithiol i fywyd dyddiol yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau’r grŵp Dysgwyr Digidol wedi creu ffilm ar ddiogelu eu hunain ar-lein i addysgu eu rhieni a gofalwyr am y peryglon sy’n perthyn i ddefnyddio’r we. Yn ogystal, mae’r Siartwyr Iaith yn gwobrwyo disgyblion, sy’n defnyddio’r Gymraeg yn gyson, ar fuarth yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando’n dda ar gyfarwyddiadau’r athrawon ac yn canolbwyntio’n ddiwyd ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae llawer yn ddysgwyr brwdfrydig, sy’n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf yn cydweithio’n gydwybodol â’u ffrindiau ac oedolion, gan gynnig cymorth i’w gilydd o’u gwirfodd.

Mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio’n gyson am gyfnodau estynedig. Maent yn dangos parch at eu gwaith, a gwydnwch a chymhelliant yn yr hyn a ddysgir. Maent yn cydweithio â’u cyfoedion mewn parau neu grwpiau i ddatrys problemau heb gefnogaeth oedolion, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio strategaethau ‘tri cyn fi’. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol. Mae llawer yn hyderus wrth drin a thrafod eu gwaith ac maent yn barod i wrando ar farn a syniadau eraill yn effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aeddfedu i fod yn unigolion iach a hyderus, ac yn deall sut i wneud dewisiadau cywir o ran diet a gweithgarwch corfforol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5, mae'r disgyblion yn cynllunio diet cytbwys yn effeithiol, sy’n cynnwys ffrwythau, llysiau, carbohydradau, proteinau, cynnyrch llaeth a brasterau. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi ffitrwydd a gweithgareddau i ddatblygu eu medrau corfforol, fel sesiynau gymnasteg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio yng ngweithgareddau lles allgyrsiol yr ysgol, fel y Clwb Coginio. Yn ogystal, mae defnydd disgyblion o'r ardaloedd lles a chorneli tawel yn hyrwyddo eu hiechyd emosiynol yn effeithiol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o sut i wneud penderfyniadau doeth i ofalu am eu hiechyd meddwl. Enghraifft dda o hyn yw’r defnydd o anghenfilod lliw sy’n cyd-fynd â’u hemosiynau ar ddechrau’r dydd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu hymwybyddiaeth o’r gwerthoedd sy’n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Mae'r disgyblion hŷn yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb a chynhwysiant fel rhan o’u gwaith ar amrywiaeth a hawliau plant. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu am werthoedd i gefnogi eraill yn llwyddiannus ac maent yn awyddus i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent wedi codi swm sylweddol o arian ar gyfer plant anghenus trwy nifer o weithgareddau ymarferol, fel gwisgo mewn dillad coch. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau difyr, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n ysgogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae cynllunio profiadau yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn hyrwyddo eu dysgu annibynnol yn fwriadus.

Ar y cyfan, mae athrawon yn cydweithio'n gynhyrchiol i ddatblygu cwricwlwm diddorol sy'n cefnogi disgyblion i gyflawni'n dda. Ar draws yr ysgol, mae cynefin y disgyblion yn cael sylw blaengar, fel astudiaethau Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 ar hanes pyllau glo yr ardal. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn cael profiadau gwerthfawr wrth ymweld â gwarchodfa tylluanod. Mae athrawon yn y ganolfan adnoddau dysgu yn cynllunio profiadau dysgu dilys ac effeithiol sy'n targedu anghenion disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog disgyblion i gyfrannu eu barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn synhwyrol, trwy lenwi mapiau meddwl ar y cyd ar ddechrau thema. Maent yn cymryd sylw o awgrymiadau disgyblion yn ddeallus wrth gynllunio'n drawsgwricwlaidd. Maent yn croesawu'r safbwyntiau hyn ac yn eu defnyddio'n bwrpasol fel rhan o brofiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, maent yn ymweld ag amgueddfa lofaol yn dilyn awgrymiadau'r dosbarth. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn rhannu eu profiadau'n dda ag eraill, gan fod eu dysgu yn berthnasol i'w diddordebau.

Ar y cyfan, mae'r addysgu'n dda ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn herio disgyblion i gynhyrchu eu gwaith gorau mewn gwersi. Fodd bynnag, mae lefel yr her i ddisgyblion yn amrywio o un dosbarth i'r llall, ac nid yw'n gyson ar draws yr ysgol.

Caiff disgyblion brofiadau cynhwysfawr i ddatblygu eu medrau gwrando, siarad, darllen, a'u cymwyseddau digidol. Er enghraifft, mae cyfleoedd diddorol ar gael i ddisgyblion y dosbarth meithrin drafod a chymysgu lliwiau tra'n peintio tân gwyllt. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn animeiddio i adlewyrchu lleoliadau daearyddol ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal. Mae athrawon yn sicrhau bod trefniadau addas i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio ar y cyd yn gwbl effeithiol ac, o'r herwydd, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lles a'u hunaniaeth yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i ddigwyddiadau byd-eang ac amrywiaeth y byd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn cynnal gwasanaethau ysgol gyfan ar amrywiaeth ac mae disgyblion hŷn yr ysgol yn astudio trychinebau naturiol ar draws y byd. Yn ogystal, mae'r cynllunio'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a Chymreictod yn llwyddiannus ac mae'r holl staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn fwriadus.

Mae'r berthynas broffesiynol rhwng staff a disgyblion yn gryf. Mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn darparu gweithgareddau sydd wedi'u teilwra'n bwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion, sy'n cynnwys y rhai sydd angen cymorth â'u gwaith. Mae cymorthyddion yn darparu cefnogaeth werthfawr i'r disgyblion hyn,

gan wybod pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu i'r disgybl ddyfalbarhau'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o wersi'n symud yn gyflym, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Fodd bynnag, ar adegau, mae rhediad yr addysgu yn araf ac mae gormod o amser yn cael ei dreulio yn trafod y tasgau. Mae hyn yn llesteirio brwdfrydedd ac awydd y disgyblion i ddechrau eu gwaith.

Mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu ac arferion priodol i ymateb i waith disgyblion yn ystod gwersi. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu adborth yn fedrus ar lafar i herio ac asesu ansawdd dysgu'r disgyblion, ac i dargedu unrhyw ddifaterwch neu waith anghywir yn brydlon. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ar draws yr ysgol yn amrywiol. Mae athrawon yn tueddu ysgrifennu'r un adborth yn aml, heb gael digon o effaith ar ddarnau gwaith nesaf y disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu diddorol lle defnyddir ardaloedd penodol yn bwrpasol i gefnogi dysgu disgyblion. O ganlyniad, mae staff yn creu arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu defnyddiol y tu mewn i'r adeilad i gefnogi disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored sydd ar gael yn briodol. Fodd bynnag, mae diffyg darpariaeth a phrofiadau dysgu ysgogol a rheolaidd yn yr awyr agored, yn enwedig ar gyfer y disgyblion ieuengaf.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, ac mae ei hethos yn gynhwysol a chydweithredol. Mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol yn nodwedd gref rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon a chymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn dwymgalon i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at eu hapusrwydd a'u lles. Mae ymagweddau'r staff a'r awyrgylch bositif yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n hawdd ym mywyd yr ysgol. Mae arferion buddiol yr ysgol yn annog disgyblion i feithrin agweddau gwydn tuag at ddysgu.

Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr i gasglu gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r system olrhain i fonitro cynnydd disgyblion yn eu dosbarthiadau yn rheolaidd. Mae'r staff yn asesu cyflawniadau disgyblion a'u lles yn bwrpasol, sy'n golygu bod athrawon yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion pob disgybl. Pan fydd staff yn nodi materion i'w gwella, mae'r ysgol yn darparu cymorth ac ymyraethau gwerthfawr i wella dysgu disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys integreiddio disgyblion y ganolfan adnoddau arbenigol gyda'u cyfoedion yn ddyddiol.

Mae'r ystod eang o raglenni ymyrraeth i wella medrau siarad, darllen, lles a chymdeithasol disgyblion yn strwythuredig ac yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth yn cymell y rhan fwyaf o ddisgyblion i fwynhau a chymryd rhan yn y gweithgareddau yn egnïol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion a dargedir yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae sesiynau ymyrraeth, sy'n canolbwyntio ar les disgyblion, yn effeithiol ac maent yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gwersi'n bwrpasol. Mae hyn yn cyfoethogi eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol, ac yn eu galluogi i rannu eu teimladau â'i gilydd yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion. Maent yn cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol yn llwyddianus. Er enghraifft, mae'r cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio'n agos ag ysgolion lleol trwy eu grŵp cydgysylltwyr. Mae hyn yn arwain at gymorth gwerthfawr i staff ddeall eu rolau newidiol wrth gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth ofalgar a chynhwysol.

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Mae’r rhain yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu ac maent yn cynnwys, er enghraifft, teithiau i weld dramâu mewn neuaddau lleol ac i amgueddfeydd diwydiannol. Mae astudiaethau o drychinebau byd eang, fel rhyfeloedd, sychder a newyn, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch a'r hawl i fod yn rhydd rhag aflonyddwch. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i fedrau cymdeithasol a dealltwriaeth ddiwylliannol disgyblion. Yn ogystal, mae cyfleoedd pwrpasol ar gael i ddathlu treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cynnwys storïau lleol, fel hanes Pont y Siartwyr yng Nghoed Duon, a bywyd arwyr yr ardal fel y paffiwr Joe Calzaghe.

Mae'r ysgol yn cyflwyno gwersi synhwyrol sy'n archwilio hawliau dynol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Elfen gadarnhaol o'r gwersi yw eu bod yn annog trafodaethau gan ddisgyblion, sy'n datblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r dulliau strwythuredig hyn mewn gwersi personol a chymdeithasol yn cynnwys cyfleoedd i archwilio materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o bob rhan o'r byd.

Mae staff yn sicrhau bod lles a diogelwch disgyblion yn rhan annatod o fywyd yr ysgol ac maent ar flaen y gad o ran eu cyfrifoldebau dyddiol. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu pwysigrwydd cadw'n ddiogel. Er enghraifft, mae’r ysgol yn defnyddio heddweision i dynnu sylw disgyblion at beryglon camddefnyddio sylweddau a'u haddysgu am ddiogelwch ar y rhyngrwyd.

Mae prosesau’r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yn effeithlon. Caiff unrhyw absenoldebau parhaus eu monitro'n drwyadl, ac mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o fwlio honedig yn dda. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu yn dda ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gosod gofal a lles disgyblion wrth wraidd ei weledigaeth. Mae llywodraethwyr yn cefnogi ei hathroniaeth ac mae’r staff yn gweithredu’n ddiwyd ar ddisgwyliadau’r arweinwyr ac yn gwneud eu gorau dros y disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod awyrgylch gofalgar a chynhwysol yn treiddio trwy’r ysgol, ac mae’r staff yn ymfalchïo yn arwyddair yr ysgol, 'O fesen fach i’r gangen uchaf, tyfwn gyda’n gilydd'. Mae hyn yn cael effaith dda ar agweddau’r disgyblion at ddysgu, eu gofal tuag at ei gilydd a'u hymddygiad cadarnhaol.

Mae’r trefniadau i ddosbarthu rolau arwain ac i ddwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith yn bwrpasol ac yn deillio o arferion rheoli perfformiad trwyadl. Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu ac ymgorffori dealltwriaeth

gyffredin o werthoedd proffesiynol ymhlith y staff. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae prosesau arweinwyr ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn gadarn ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae’r systemau i wella ansawdd yn cynnwys archwilio llyfrau disgyblion, gwrando ar lais disgyblion, monitro addysgu a dadansoddi data sy’n mesur cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn casglu barnau rhanddeiliaid eraill yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ystyried barnau rhieni a gofalwyr ac yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau yn synhwyrol, fel addasu trefniadau gwaith cartref a’r prosesau ar gyfer dysgu’n gyfunol.

Mae gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a’r meysydd i'w datblygu. Mae'r cysylltiad rhwng gweithgareddau hunanwerthuso â chynllunio gwelliannau yn gadarn. O ganlyniad, mae arweinwyr yn blaenoriaethu eu canfyddiadau'n effeithiol ac yn pennu targedau dibynadwy i symud yr ysgol ymlaen. Yn ogystal, mae arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol yn effeithiol gyda'r holl staff.

Mae llywodraethwyr yn hyrwyddo arferion effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach ac yn cynghori rhieni a gofalwyr am bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu blychau bwyd. Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos iawn â chymuned ehangach yr ysgol ac yn adeiladu ar y berthynas gref sy'n bodoli gyda’r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr. Er enghraifft, mae’r ysgol yn cefnogi cymdeithas rhieni a ffrindiau’r ysgol i ddosbarthu gwisgoedd ysgol i deuluoedd yn ystod y flwyddyn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gwneud defnydd da o’r adeilad ac yn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio ardaloedd cymorth, fel yr ystafell dawel, yn effeithiol. Fodd bynnag, mae diffyg yn y ddarpariaeth a’r defnydd o adnoddau ar gyfer y disgyblion iau yn yr ardal allanol. Mae hyn yn llesteirio eu profiadau dysgu a’r cyfleoedd i gyfoethogi eu medrau ymhellach.

Mae llywodraethwyr yn wybodus ac mae eu mewnbwn cyson yn creu gwelliannau systematig ar draws yr ysgol. Maent yn gefnogol i'r pennaeth ac yn ei dwyn i gyfrif fel ffrindiau beirniadol. Mae’r pennaeth yn hysbysu llywodraethwyr yn bwrpasol am ddysgu disgyblion a'r angen i wella'r ddarpariaeth, fel gwella’r caledwedd digidol a hyfforddiant i gefnogi lles y disgyblion a’r staff.

Mae llywodraethwyr yn manteisio ar ddatblygu dealltwriaeth uniongyrchol o weithgareddau’r ysgol, sydd o fudd i greu gwelliannau. Er enghraifft, maent yn ymgymryd â theithiau dysgu ac yn trafod gwaith disgyblion i fesur ei ansawdd ochr yn ochr ag athrawon a phlant. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth werthfawr o arferion cyfredol yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn monitro'r cyllid yn ddoeth ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol i fuddsoddi mewn arbenigedd cymorthyddion i ddarparu ymyraethau perthnasol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu da ar gael i staff i gefnogi eu dysgu proffesiynol, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Un o nodweddion cadarnhaol y broses hon yw bod y staff yn datblygu medrau y maent yn eu defnyddio'n effeithiol i wella deilliannau disgyblion. Enghraifft effeithiol yw hyfforddiant i ddatblygu’r cynllunio trawsgwricwlaidd i gyfoethogi dysgu’r disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhannu arfer dda ag ysgolion lleol ac mae hyn yn cefnogi gallu'r ysgol i wella'n barhaus. Mae’n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu heffeithiolrwydd â gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae'r staff yn cael cyfleoedd cynhyrchiol, sy'n datblygu eu gwybodaeth broffesiynol a'u medrau arwain. Er enghraifft, mae aelodau staff y ganolfan adnoddau arbenigol yn cynnig gwasanaeth ymestyn allan i ysgolion yr ardal. Mae'r diwylliant hwn o ddysgu proffesiynol parhaus yn creu darpariaeth ofalgar, sydd yn ei dro yn arwain at ddisgyblion brwdfrydig, sy’n cyflawni’n dda o'u mannau cychwyn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2024